
Ymateb i Ymgynghoriad

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	7 Hydref 2019
Pwnc / Subject:	Diogelu plant rhag achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Cyflwyniad

Mae Estyn yn croesawu'r cynnig i gyflwyno canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n diogelu plant rhag achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt (CSE).

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'n glir natur camfanteisio'n rhywiol ar blant, a'i effaith ar blant yng Nghymru, ac maent yn darparu canllawiau priodol ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â darpariaeth addysg, ynglŷn â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a sut i weithredu er mwyn amddiffyn unrhyw blentyn sydd mewn perygl.

Bydd y manylion yn y canllawiau yn helpu staff addysgu, staff bugeiliol a staff cymorth mewn ysgolion, gweithwyr ieuencid, a staff addysg mewn gwasanaethau troseddau ieuencid i gyflawni eu rôl allweddol i amddiffyn plant sydd mewn perygl.

Mae graddau'r manylder hwn yn dangos bod angen sicrhau bod yr holl staff addysg yn cael hyfforddiant rheolaidd, priodol a chyfoes. Mae hyn yn hanfodol i'w cynorthwyo i ddeall yr holl faterion allweddol sy'n deillio o'r canllawiau hyn sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu dyletswyddau proffesiynol.

Mae Estyn yn croesawu datblygu Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan mewn perthynas â phlant mewn amgylchiadau diogelu penodol sy'n cynnwys Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant sydd mewn perygl o achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt, a fydd yn helpu gweithwyr addysg proffesiynol ochr yn ochr â gwasanaethau eraill wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Bydd y canllawiau hyn yn helpu Cymru i gyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol i sicrhau bod pob dysgwyr yn elwa ar ei hawliau i:

- gael ei drin â thegwch, parch ac urddas
- cael cyfiawnder
- bod yn rhydd oddi wrth bob math o drais, niwed a thriniaeth ddiraddiol.

Bydd y canllawiau hyn yn cyfrannu'n benodol at Erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r rhain yn amlinellu cyfrifoldebau'r llywodraeth i amddiffyn plant rhag pob math o drais, a heb berygl:

“Mae'n datgan y dylai Partion gymryd yr holl gamau deddfwriaethol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol priodol i amddiffyn y plentyn rhag pob math o drais corfforol neu feddyliol, anaf neu gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth esgeulus, camarfer neu gamfanteisio, gan gynnwys camdriniaeth rywiol, tra byddant yng ngofal rhiant/rhieni, gwarcheidwad/gwarcheidwaid cyfreithiol neu unrhyw un arall sydd â gofal am y plentyn.

Dylai camau amddiffynnol o'r fath, fel y bo'n briodol, gynnwys gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sefydlu rhaglenni cymdeithasol i ddarparu cymorth angenrheidiol ar gyfer y plentyn ac ar gyfer y rheiny sydd â gofal am y plentyn, yn ogystal â mathau eraill o atal, ac ar gyfer nodi, adrodd, cyfeirio,

*ymchwilio, trin a mynd i'r afael ag achosion o gam-drin plant a ddisgrifiwyd cyn hyn, ac am ymglymiad barnwrol, fel y bo'n briodol"*¹.

Bydd y canllawiau hyn yn cryfhau cyfraniad gweithwyr addysg proffesiynol i sicrhau dull cenedlaethol cyfannol sy'n amddiffyn plant a'r holl ddysgwyr eraill rhag bygythiad o drais, niwed, camfanteisio a chamdriniaeth².

Gellid cryfhau'r canllawiau ymhellach trwy nodi'r angen i wasanaethau fod ar gael ym mamiaith dioddefwyr achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, p'un a yw hynny yn Gymraeg, yn Saesneg neu mewn ieithoedd eraill.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Diogelu plant rhag achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol arnynt (CSE)

1. A yw Pennod 1 yn amlinellu'r ffyrdd y gellir deall a nodi camfanteisio'n rhywiol ar blant fel math o gam-drin plant yn rhywiol, mewn ffordd glir a defnyddiol?

Ydy X

Nac ydy

Ansicr

Rhowch sylwadau:

Mae'r bennod hon yn amlinellu'n dda beth yw'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE), ei nodi, y cyd-destunau y gallai ddigwydd ynddynt, a'r termau, y cysyniadau a'r materion allweddol o fewn camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r testun yn glir ac yn ddigon manwl i ddarparu canllawiau ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Bydd y manylion ym Mhennod 1 yn helpu staff addysgu, staff bugeiliol a staff cymorth mewn ysgolion, gweithwyr ieuenctid, a staff mewn gwasanaethau troseddau ieuenctid i gyflawni eu rôl allweddol mewn amddiffyn plant sydd mewn perygl.

Yn benodol, mae'r adrannau sy'n ehangu ar y cyd-destunau lle gallai achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd, gan gynnwys o fewn y teulu ac o fewn y gymuned leol, yn ogystal â phosibiliadau cyfoedion yn cam-drin ei gilydd, yn ddefnyddiol. Mae'r adrannau hyn yn nodi pwysigrwydd bod yn wyladwrus mewn ysgolion ac mewn gwasanaethau addysg yn y gymuned, fel y gwasanaeth ieuenctid.

Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd eglurder y manylder hwn yn nodi angen i ddiwygio hyfforddiant diogelu ar gyfer staff addysg, fel eu bod yn cael eu cynorthwyo i ddeall yr holl faterion allweddol sy'n deillio o'r bennod hon, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu dyletswyddau proffesiynol. Bydd yn hanfodol sicrhau bod staff mewn ysgolion annibynnol yn elwa ar hyfforddiant priodol a chyfoes hefyd.

¹ Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989)

² Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2011) *Sylw Cyffredinol Rhif 13: Hawl y plentyn i ryddid rhag pob math o drais*. [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www2.ohchr.org/english/bodies/crc/docs/CRC.C.GC.13_en.pdf Darllenwyd ar: 23/09/2019

2. A yw Pennod 2 yn amlinellu tystiolaeth ar ddulliau o atal camfanteisio'n rhywiol ar blant, mewn ffordd glir a defnyddiol?

Ydy X

Nac ydy

Ansicr

Rhowch sylwadau:

Mae'r bennod hon yn amlinellu'n glir beth yw'r materion allweddol sy'n gysylltiedig ag atal camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE), a rôl darparwyr gwasanaeth, a gwasanaethau addysg yn benodol.

Mae rôl gwasanaethau addysg, gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau cymorth ieuencid, mewn atal camfanteisio'n rhywiol ar blant, wedi'u hamlinellu'n glir. Mae'r lleoliadau hyn yn darparu pwyntiau cyswllt pwysig ar gyfer plant a phobl ifanc. Maen nhw, mewn llawer o ffyrdd, yn bwyntiau cyswllt cyntaf ar gyfer plant, ac yn lleoliad y gellir gwneud ymateb cychwynnol trwyddo.

Mae'r bennod yn nodi'n dda nad yw atal ynglŷn ag ymyrraeth gynnar yn unig, ond hefyd ynglŷn â gwaith parhaus i gynorthwyo plant sydd wedi cael eu cam-drin trwy achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt, er mwyn atal achosion eraill o gamdriniaeth yn y dyfodol.

Mae rôl ac effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, o ran cynyddu'r risg i unigolion o erledigaeth trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, wedi eu datgan yn glir. Mae'r bennod yn nodi 'Gwydnwch' fel ffactor amddiffynnol allweddol yn erbyn effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac yn amddiffyn yn erbyn y risg o gael eu denu i gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae meithrin gwydnwch ymhlith pobl ifanc yn rôl allweddol i ysgolion a gwaith ieuencid, a dylai fod yn ganlyniad o'r cwricwlwm ysgol ac o ryngweithiadau gwaith ieuencid. Felly, byddai'r bennod hon yn gryfach pe bai'n cynnwys archwiliad o gyfraniad uniongyrchol yr ysgol at les disgyblion yn benodol, trwy gynnwys meithrin gwydnwch yn amlwg o fewn y cwricwlwm. Bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad ym mis Tachwedd 2019 ynghylch 'Cymorth ar gyfer disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod' yn archwilio arfer gynnar effeithiol mewn ysgolion.

Caiff pwysigrwydd cyfraniad yr holl staff addysg ei wneud yn glir. Mae'r pwyslais hwn yn golygu bod angen i staff addysg allu elwa ar gyfundrefn hyfforddi briodol a chyfoes, a fydd yn eu helpu i ddeall bod y materion allweddol sy'n deillio o'r bennod hon yn effeithio'n uniongyrchol ar eu dyletswyddau proffesiynol.

3. A yw Pennod 3 yn amlinellu gweithdrefnau diogelu ar gyfer plant sydd mewn perygl o achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt, mewn ffordd glir a defnyddiol?

Ydy X

Nac ydy

Ansicr

Rhowch sylwadau:

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r materion generig ynglŷn â rhoi gweithdrefnau effeithiol a phriodol ar waith ar gyfer plant sydd mewn perygl o ddioddef achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Yn benodol, rôl gweithio amlasiantaethol i ddarparu ymatebion priodol a thargedig i blant sydd mewn perygl. Ni chaiff rôl gwasanaethau

addysg ei hamlygu yn y bennod hon. Fodd bynnag, maent yn wasanaethau allweddol yn yr agwedd hon.

Mae'r ffocws ar arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hanfodol i ddarparu cymorth yn effeithiol. Mae Estyn yn croesawu datblygu Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan o ran plant mewn amgylchiadau diogelu penodol, sy'n cynnwys Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant sydd mewn perygl o ddiodef achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Bydd y canllawiau hyn yn cynorthwyo gweithwyr addysg proffesiynol yn dda.

4. A yw Pennod 4 yn amlinellu tystiolaeth o ddulliau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, neu'n cael eu cam-drin, trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, mewn ffordd glir a defnyddiol?

Ydy X

Nac ydy

Ansicr

Rhowch sylwadau:

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gwasanaeth y tu allan i fydd addysg. Er nad oes gan ysgolion unrhyw rolau penodol yn y meysydd sy'n cael eu harchwilio yn y bennod benodol hon, gellid cynnwys rôl y gwasanaeth ieuenctid yma, lle mae angen i wasanaethau ganolbwyntio ar y risgiau a gymerir gan rai pobl ifanc, a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

5. A yw Pennod 5 yn amlinellu trefniadau ar gyfer tarfu ar gyflawnwyr achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a'u herlyn, ac ar gyfer cynorthwyo dioddefwyr sy'n blant, mewn ffordd glir a defnyddiol?

Ydy X

Nac ydy

Ansicr

Rhowch sylwadau:

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gwasanaeth a gweithgarwch y tu allan i gyfrifoldebau darparwyr addysg.

6. Hoffem gael gwybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a

ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Nodwch:

Nid yw Estyn yn rhagweld y bydd y cynigion yn cael unrhyw effaith niweidiol neu negyddol ar y Gymraeg.

Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau'n gwneud unrhyw gyfeiriad eglur at weithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg yn y system, er mwyn cynorthwyo dioddefwyr sy'n blant yn eu mamiaith neu'r iaith o'u dewis.

Mae iaith, p'un a yw'n Gymraeg, yn Saesneg neu'n iaith arall, yn hynod bwysig wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed sydd mewn perygl o ddiodeff achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Mae darparu cymorth effeithiol gan weithwyr proffesiynol yn eu dewis iaith, p'un a yw hynny yn Gymraeg neu mewn iaith arall, yn ganolog i gadw dioddefwyr yn ddiogel ac i fodloni eu gofynion, gyda pharch ac urddas fel ei gilydd. Rhaid i blant sydd mewn perygl o ddiodeff achos o gamfanteisio'n rhywiol arnynt, neu sydd wedi diodeff achos o'r fath, allu mynegi eu hunain yn briodol er mwyn sicrhau'r gofal a'r cymorth angenrheidiol. Gall anawsterau cyfathrebu arwain at gamddeallttriaeth ac oedi o ran rhoi cymorth ar waith. Felly, mae'n hanfodol eu bod yn cyfathrebu yn yr iaith y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn ei siarad.

7. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall p'un a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghorol hon ynglŷn â'r canllawiau hyn yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredo, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. A ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai, a pham/pam ddim?

Ydw

X

Nac ydw

Nodwch:

Dylai'r canllawiau hyn wella darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau sydd mewn mwy o berygl na'u cyfoedion cyffredinol, o ddiodeff achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Mae ymchwil³ wedi canfod bod plant ag anabledd deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin mewn rhyw ffordd na phlant heb anabledd.

8. Fe wnaethom ofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:

Cofnodwch yma:

Dim sylwadau pellach.

³ A.Franklin, P.Raws ac E.Smeaton (2015) Unprotected, overprotected: meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or are at risk of, sexual exploitation. Comisiynwyd yr adroddiad gan Comic Relief, ac fe'i cynhaliwyd gan Barnardo's, Cymdeithas y Plant, Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain (BILD), Paradigm Research a Phrifysgol Coventry.

